Cartrefi Cymunedol Cymru | Community Housing Cymru

# Diweddaru Effaith ac Ymgysylltu

## Ein heffaith Ebrill - Medi 2022

Rydym yn falch o'r hyn yr ydym wedi ei gyflawni gyda chi ac ar eich rhan dros y 6 mis diwethaf, yn cynnwys:

**Polisi a dylanwadu**

- Rydym wedi gweithio'n agos gydag aelodau a phartneriaid i wthio'n ôl yn erbyn cynigion nag oedd cyllid ar eu cyfer i ddatgarboneiddio stoc presennol erbyn 2033. Cafodd hyn ei ategu gan weithgaredd materion cyhoeddus wedi'i dargedu i godi proffil y gwaith hwn. Mae trafodaethau yn awr yn mynd rhagddynt gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau fod mesurau yn ymarferol ar gyfer ein sector.

- Disgwyliwn i'r setliad rhent ar gyfer 2023/24 gael ei alw mewn ar gyfer penderfyniad y Gweinidog. I baratoi ar gyfer hynny, rydym wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac aelodau i gynnal modelu llyfr agored ar amrywiaeth o sefyllfaoedd, ac wedi comisiynu modelu cynhwysfawr i ddangos yr effaith ar gynlluniau busnes. Caiff ein harolwg rhent hefyd ei ddefnyddio i ddangos y ffocws ar fforddiadwyedd gan gymdeithasau tai a rydym yn adeiladu pecyn tystiolaeth ehangach yn dangos ymgysylltu â thenantiaid a gwerth am arian.

- Fe wnaethom weithio mewn partneriaeth i sicrhau estyniad chwe mis i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru), mewn ymateb i bryderon aelodau. Mae grŵp gweithredu cysylltiedig CHC wedi bod yn fforwm ddefnyddiol ar gyfer adnabod problemau ynghylch gweithredu a cheisio datrysiad gan Lywodraeth Cymru, ac mae ein hyfforddiant yn parhau i fod yn boblogaidd.

- Rydym wedi dylanwadu ar weithredu gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â rhwystrau datblygu drwy gyllid ychwanegol ar gyfer cynnydd mewn costau deunyddiau, adolygiad o Systemau Draeniad Cynaliadwy ac uwchgynhadledd y Prif Weinidog ar fosffadau.

- Er bod y pwysau ar gymdeithasau tai sy'n darparu gwasanaethau gofal yn parhau'n ddwys, rydym wedi gweithio mewn partneriaeth i eirioli'n llwyddiannus dros gynnydd yn y gyllideb i awdurdodau lleol i ariannu gofal cymdeithasol fel y gellir talu cyflog byw gwirioneddol i staff.

- Rydym wedi cynnal nifer o sgyrsiau cynhyrchiol gyda Phrif Swyddog Gofal Cymdeithasol newydd Cymru, gyda ffocws ar arferion comisiynu a'r rôl y gall tai ei chwarae i ostwng pwysau ar GIG Cymru. Mae'r gwaith hwn yn parhau i fanteisio o weithio partneriaeth cryf ar lefel genedlaethol.

- Rydym yn parhau i gefnogi aelodau i feithrin cysylltiadau cryf gyda chydweithwyr yn y sector iechyd. Mae hyn wedi cynnwys sefydlu fforwm ar gyfer cynrychiolwyr tai ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, yn lleol drwy gyfleoedd siarad a chanllawiau arfer da.

- Rydym wedi gweithio gydag aelodau i ddynodi meysydd blaenoriaeth i ymgyrchu ar gyfer newidiadau a fyddai'n cefnogi tenantiaid i ymateb i gynnydd yn eu costau byw. Rydym hefyd wedi datblygu rhaglen cymorth ar gyfer ein aelodau.

- Rydym wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i gefnogi cynllun adsefydlu ffoaduriaid o Wcráin. Mae hyn wedi cynnwys darparu lleoedd i Lywodraeth Cymru drafod materion gyda'r sector, datblygu cyfleoedd i gymdeithasau tai gefnogi staff a chydlynu ceisiadau ar gyfer cymorth ychwanegol ar lefel leol.

- Mae ein gwaith i bwyso am ddull aml-asiantaeth i ddileu digartrefedd a chefnogi tenantiaethau llwyddiannus yn mynd yn ei flaen. Rydym yn ymwneud â llunio fframwaith deiliannau traws-sector ar ddigartrefedd ac yn gweithio i godi ymwybyddiaeth o ailgartrefu cyflym.

- Rydym wedi adfywio ein hymgyrch Dyma'r Sector Tai ac wedi sicrhau partneriaethau gyda CITB a Chwarae Teg i hyrwyddo'r sector i ystod ehangach o ddarpar ymgeiswyr swyddi.

**Gwasanaethau i Oedolion**

- Dechreuodd ein gwaith o gasglu sylwadau ar gyfer ein Cynllun Corfforaethol a'n strategaeth fasnachol gyda 45 o sgyrsiau manwl gydag aelodau a rhanddeiliaid. Cynhelir gweithdai gyda Grwpiau Cyflenwi Strategol drwy gydol mis Medi a mis Hydref, pan fyddwn hefyd yn datblygu ein cyfleoedd masnachol. Cafodd archwiliad canfyddiadau ei gomisiynu hefyd i gefnogi'r gwaith hwn.
- Mae nifer dda yn parhau i fynychu ein Grwpiau Cyflenwi Strategol. Cynhaliodd CHC 32 digwyddiad rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf (yn cynnwys 15 cyfarfod o'r Grwpiau) gyda 759 aelod o staff/bwrdd 34 cymdeithas tai yn mynychu[1]. Roedd dros 55% o'r rhai a gymerodd ran yn ein digwyddiadau wedi mynychu Grŵpo Cyflenwi Strategol. Mae nifer is nag yr hoffem yn mynychu ein caffes aelodau bwrdd a rydym yn adolygu hyn.

- Rydym wedi peilota fformat hyfforddiant wedi'i recordio ymlaen llaw o'r enw Tai ar Alw i roi mynediad i'n cynnwys pan mae'n gyfleus i chi.

---

[1] Mae'r nifer yn cyfeirio at achosion o ymgysylltu – h.y. y nifer o weithiau y mynychodd aelodau un o'n digwyddiadau. Disgwyliwn y bydd dros 90% o'n haelodau yn mynychu Grwpiau Cyflenwi Strategol ar draws y flwyddyn.

- Mae ymchwil allweddol yn mynd rhagddo, yn cynnwys yr arolwg meincnodi adnoddau dynol, paratoi ar gyfer cyhoeddi'r Cyfrifon Cynhwysfawr nesaf, a modelu effaith ar rent a datgarboneiddio.

## Beth fu'n digwydd yn CHC?

Fel sefydliad, rydym yn parhau i ddatblygu ein staff a phrosesau i'n galluogi i gyflenwi'r hyn sy'n bwysig i chi. Mae hyn yn cynnwys:

- Ailstrwythuro ein swyddogaethau gwasanaethau aelodau a datblygu busnes i greu tîm newydd Ymgysylltu ag Aelodau a Digwyddiadau. Mae'r tîm yn profi dulliau newydd o gyflenwi  ac yn gweithio gyda chydweithwyr i ddatblygu dychwelyd i gynadleddau wyneb yn wyneb.

- Adolygu ein strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant i ddynodi'r cynnydd a wnaed a blaenoriaethau i'w sefydlu ymhellach ym mhopeth a wnawn.

- Rydym yn gweithredu canfyddiadau gwiriad iechyd Technoleg Gwybodaeth. Mae ymestyn Google Workspace bellach wedi ei orffen ac mae adborth staff yn gadarnhaol. Cafodd system adnoddau dynol newydd hefyd ei hymestyn.

- Rydym wedi symud allan o 2 Ocean Way ac yn parhau i gefnogi cydweithwyr i weithio o bell ar draws Cymru mewn ffordd effeithlon. Cafodd ein sesiynau Dod Ynghyd a gynhelir yn rheolaidd bob chwe wythnos eu croesawu gan gydweithwyr. rydym hefyd yn gweithredu strategaeth cyfathrebu mewnol newydd yn seiliedig ar adborth staff.

## Ein ffocws ar gyfer gweddill y flwyddyn

Rydym yn parhau i fod yn y lleoedd sy'n cyfri i ddweud eich straeon a meithrin perthynas gyda gwleidyddion, swyddogion y llywodraeth, y cyfryngau a phartneriaid. Ond, wrth gwrs, mae heriau mawr yn parhau ar gyfer ein sector ac ar gyfer ein gwaith ar y cyd i ymateb iddynt. Gwyddom y bydd pwysau costau cynyddol a datgarboneiddio a phryderon am fforddiadwyedd a chostau byw ar gyfer eich tenantiaid yn parhau i gael blaenoriaeth yn ein gwaith gyda'n gilydd yn y misoedd nesaf. Byddwn yn parhau i roi blaenoriaeth i'r materion hyn er mwyn gostwng a lliniaru'r risgiau a wynebwch a chreu cyfleoedd i'r sector i ffynnu.

Mae ein cynllun ar gyfer y chwe mis nesaf yn cynnwys:

- Cynyddu gweithgaredd i roi sylw i effaith gronnus amgylchedd heriol ac uchelgais Llywodraeth Cymru ar y sector a lobio dros ddull gweithredu newydd.

- Dychwelyd i gynadleddau wyneb i wyneb gyda'r Gynhadledd Flynyddol a'r Gynhadledd Llywodraethiant i'w cynnal cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

- Gwiriad iechyd ar lywodraethiant.

- Sicrhau cytundeb rhent un flwyddyn ar gyfer y sector sy'n cydbwyso hyfywedd gyda fforddiadwyedd.

- Galw am ddull gweithredu mewn camau at ofynion datgarboneiddio SATC 2023 dros gyfnod hirach a gyda chyllid digonol

- Cefnogi ein haelodau i weithredu Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru).

- Parhau i lobio i liniaru a dileu rhwystrau datblygu.

- Lobio dros fesurau fyddai'n gostwng y pwysau ar gostau byw ar denantiaid tai cymdeithasol a gwella'r amgylchedd gweithredu ar gyfer cymdeithasau tai.

- Cwblhau ein cynllun corfforaethol newydd, y strategaeth fasnachol a chytundeb ffioedd gyda'r sector.